



HELO BLOD

Cyfieithu am ddim i dy fusnes? Wel, Helo Blod

Mae Helo Blod yn wasanaeth cyflym a chyfeillgar sydd yma i dy gynghori di ar sut i ddefnyddio ychydig (neu lawer) o Gymraeg yn dy fusnes. Ac mae'r cwbl am ddim!

Gall hynny fod yn gyngor ymarferol ar sut i farchnata a hyrwyddo dy fusnes, neu help i wneud y Gymraeg yn fwy gweledol yn dy siop, caffi, gweithdy neu ar dy wefan – mae Helo Blod yma i dy helpu!

Mae Helo Blod yn cynnig y gwasanaethau canlynol: cyfieithu am ddim – gall Helo Blod gyfieithu hyd at 500 gair i'r Gymraeg bob mis, yn rhad ac am ddim gwirio testun – mae Helo Blod yn gallu gwirio 1,000 o eiriau bob blwyddyn am ddim.

Mae Helo Blod yn cynnig cyngor ymarferol, arweiniad a chymorth i dy helpu i ddefnyddio ychydig (neu lawer) o Gymraeg yn dy fusnes, ac os oes angen unrhyw beth arall yn ychwanegol, fe wnaiff Helo Blod dy gyfeirio di at rywun fydd yn gallu helpu nwyddau – mae Helo Blod hefyd yn dosbarthu laniardiau a bathodynau laith Gwaith Mae defnyddio ychydig o Gymraeg yn mynd yn bell. Cer draw i wefan [Helo Blod](#) i ddarganfod mwy! Neu cysylltwch â: llinos.haf@heloblodlleol.cy mru

TY TAWE A CHAPELI CYMRAEG YN DECHRAU AILAGOR

Mae ysgolion Cymraeg Abertawe i gyd yn ailagor ddechrau Medi, ac mae capeli'r ardal yn ystyried amodau agor, na fyddant yn caniatáu canu.

Wrth edrych ymlaen at ailgydio yn eu haddysg, mae disgyblion ac athrawon yn wynebu sefyllfaoedd newydd, gan nad yw Covid-19 wedi diflannu, nac yn debyg o ddiflannu am fisoedd neu flynyddoedd.

Ddiwedd Gorffennaf dechreuodd Siop Ty Tawe ail agor, ac ar hyn o bryd mae ar agor bob dydd lau, Gwener a Sadwrn o 11—2.

Ddechrau Medi, bydd Ty

Tawe'n dechrau ailagor fel Canolfan Gymunedol.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi llunio asesiad risg a chynllunio'r llofa a'r neuadd. Lle i 7 o gartrefi gwahanol sydd yn y llofa, a 12 o gartrefi gwahanol yn y neuadd.

Bydd hyn yn ddigon i grwpiau bach ddechrau ailddefnyddio'r cyfleusterau.

Bydd y Siop Siarad gyntaf yn cychwyn fore Sadwrn, Medi 11, am 10. Mae croeso i bawb, ond mae rhai rheolau



Llofa Ty Tawe a'r byrddau wedi'u gwahanu'n barod: un wrth bob bwrdd oni bai bod rhai o'r un cartref.

ymbellhau cymdeithasol hanfodol. Bydd glanhau a diheintio cyson.

WILIA YN Y SENEDD!

Mike Hedges MS

A wnaiff y Gweinidog ddarparu diweddariad ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyhoeddiadau Cymraeg lleol yn ystod y pandemig Dafydd Ellis Thomas Gwenidog Diolch yn fawr iawn, Mike, am y cwestiwn yn Gymraeg, ac mi atebaf i yn yr un modd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cyhoeddiadau Cymraeg lleol wrth sicrhau bod pobl ymmhob rhan o Gymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth a newyddion hanfodol yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Chyngor Llyfrau Cymru a rhanddeiliaid eraill i gefnogi

cyhoeddiadau yn ystod y cyfnod hwn.

Mike Hedges MS Diolch, Gweinidog. Pwysigrwydd cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg lleol—mae Julie James, Rebecca Evans a minnau'n hysbysebu'n effeithiol yn ein cyhoeddiad Cymraeg misol *Wilia*. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau parhad cyhoeddiadau o'r fath?

Dafydd Ellis Thomas Gwenidog Wel, mae *Wilia* yn un o rwydwaith, os ydw i'n cofio'n iawn, o 52 o bapurau bro trwy Gymru sydd yn chwarae rhan allweddol i gysylltu cymunedau, yn enwedig mewn sefyllfa fel hon o argyfwng iechyd cyhoeddus. Rydyn ni'n eu cefnogi nhw drwy Mentrau Iaith Cymru, ac



fel y dywedais i ar y dechrau, mae 52 o bapurau bro ac mae yna grant o £97,000 wedi cael ei gyllido i dargedu papurau bro yn y flwyddyn ariannol 2020-1.

Clwb cefnogwyr Ty Tawe:

Mae Ty Tawe'n cychwyn clwb cefnogwyr i ddiogelu'r

Ganolfan. Manylion ar y dudalen ôl

Nofel newydd Andrew Green

Mae nofel ddychanol newydd Andrew Green ar fywyd prifysgol ar fin ymddangos: mwy ar y dudalen ôl.

Enillwyr Gwobr Drama

Mae dau wedi ennill ysgoloriaeth Cymdeithas Ddrama Gymraeg Abertawe—dudalen 2

ENILLWYR YSGOLORIAETH CYMDEITHAS DRAMA GYMRAEG ABERTAW 2020.



Mae'n bleser gan Gymdeithas Drama Gymraeg Abertawe gyhoeddi enwau enillwyr ysgoloriaeth y gymdeithas am eleni. Dyfarnwyd dwy ysgoloriaeth, gwerth £2000 yr un, gan y panel gwobrwyo, sef yr actor Ioan Hefin, y cyfarwyddwr Euros Lyn a'r llenor Elinor Wyn Reynolds.

Y ddau enillydd yw Niamh Moulton o Rydaman a Gwion Glyn o Fethel ger Caernarfon.

Mae Niamh newydd gwblhau gradd BA Perfformio ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac yn bwriadu dilyn cwrs MA Theatr:Perfformio yno am y flwyddyn nesaf.

Mae Gwion newydd orffen blwyddyn gyntaf ei gwrs BA Perfformio yn Academi Gwyddorau Theatr Italia Conti yn Llundain. (Cefndir: Mae'r ysgoloriaeth flynyddol yn agored i unigolion 18+ oed (ar 1 Medi'r flwyddyn berthnasol) sydd â'u bryd ar ddilyn cwrs gradd, ôl-radd neu gyfatebol yn un o ddisgyblaethau creadigol y ddrama: actio, sgriptio, cynhyrchu neu gyfarwyddo.

Sefydlwyd Cymdeithas Drama Gymraeg Abertawe ym 1919 ac ar hyd y blynyddoedd rhoddodd gyfle cyntaf i restr hir o actorion, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr a dramodwyr aeth ymlaen i ddilyn gyrfaoedd proffesiynol a thyfu'n enwau cyfarwydd ar lefel cenedlaethol.

Er nad yw'r Gymdeithas yn llwyfannu



cynhyrchiadau ar hyn o bryd, mae'n parhau i hybu'r ddrama Gymraeg yn ei milltir sgwâr a thu hwnt yn unol â'i hamcanion, a mae cefnogi talent ifanc trwy'r ysgoloriaeth hon, a sefydlwyd yn 2014, yn rhan allweddol o hynny).

Clwb Cwtsh i ddychwelyd yn yr Hydref Yn dilyn llwyddiant y cyrsiau a gynhaliwyd ledled Cymru yn 2018-2019, bydd Clwb Cwtsh, sef cynllun rhad ac am ddim sy'n defnyddio gemau a chaneuon i gyflwyno'r Gymraeg i rieni plant ifanc, yn dychwelyd yr Hydref hwn. Er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Llywodraeth yn sgil Covid-19, sesiynau ar-lein fydd ar gael ar gyfer y cymal cyntaf yn yr Hydref yna gobeithir y bydd modd eu cynnal mewn mannau cymunedol yn nes ymlaen os bydd y canllawiau'n caniatáu.

Cafodd Clwb Cwtsh, sy'n brosiect ar y cyd rhwng Mudiad Meithrin â'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol, ei lansio ym mis Chwefror 2018 ac ers hynny mae wedi mynd o nerth i nerth. Ers y cymal cyntaf, mae 2,106 o oedolion wedi mynychu 'Clwb Cwtsh' a thua'r un nifer o blant. Lluniwyd y cyrsiau yn wreiddiol gan Nia Parry, sydd wedi arbenigo ar gyflwyno rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr.

Mae'r cyrsiau Clwb Cwtsh yn wyth wythnos o hyd ac wedi'u hanelu at ddysgwyr newydd sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref.

Bydd y cwrs ar ei newydd wedd yn cael ei rannu i ddau gymal:

1. Bydd y rhan gyntaf yn rhithiol dros Teams – felly mae modd ei ddilyn o'r cartref heb orfod teithio
2. Bydd yr ail ran mewn lleoliadau cymunedol (gan ddibynnu ar ganllawiau Covid-19) lle bydd adloniant ar gael i'r plant, felly ni fydd gofal plant yn rhwystr i neb rhag ymuno. Bydd y sesiynau yn defnyddio canu a gemau gydag amser am banded! Ar ddiwedd y cyfnod, mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i ddilyn cyrsiau pellach sydd yn ddwysach eu natur.

CIP YN MYND FEL MELLTEN!



Yn dilyn cyhoeddiad Urdd Gobaith Cymru bod eu cylchgronau i gyd am ddim ac yn ddigidol am y flwyddyn ysgol newydd hon, mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel gyda'r tanysgrifwyr yn derbyn eu cylchgronau digidol yn uniongyrchol i'w e-byst yr wythnos hon.

Bydd darllenwyr cylchgrawn poblogaidd *Cip* yn cael gwledd ychwanegol o gynnwys, wrth i gylchgrawn *Mellten* ddod y rhan o *Cip*, eto am ddim. Bydd *Bore Da*, cylchgrawn ar gyfer dysgwyr Gymraeg oed cynradd hefyd yn cael ei ddosbarthu'n ddigidol yr wythnos hon, a chylchgrawn yr Urdd i ddysgwyr oed uwchradd, *IAW*, ym mis Hydref.

Meddai Mari Williams, Rheolwr Cyfathrebu'r Urdd: "Yn barod,

mae gennym ni bron i ddwy fil o danysgrifwyr, a hynny cyn i ni ddechrau anfon ein rhifynnau allan yn ddigidol nac anfon deunydd hyrwyddo i'r ysgolion. Felly, mae'n argoelli'n addawol iawn.

"O dan amgylchiadau anghyffredin ac anodd, roedd yn rhaid i ni fel mudiad fod yn fentrus ac arloesol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gynnig cylchgronau Gymraeg cyffrous, gwreiddiol i blant a phobl ifanc Cymru. O ganlyniad i fynd yn ddigidol, rydyn ni yn gallu cynnig y cylchgronau i gyd am ddim,

Wilia Bach

yng ngofal Heini Gruffudd



Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Daliwch i anfon, bydd rhifyn eto'n fuan: beth am anfon eich atgofion, sut rydych chi'n

ymdopi â hunanynysu ac unrhyw beth arall o ddiddordeb?

wilia@hotmail.co.uk

Cronfa Grantiau Argyfwng + Aelodaeth am Ddim i Gylchoedd Meithrin

Un o'r camau ymarferol mae'r Mudiad Meithrin yn ei wneud i helpu Cylchoedd Meithrin yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 yw rhannu grantiau o gronfa'r Mudiad i'r cylchoedd sydd mewn angen. Gydag o leiaf £250,000 yn y gronfa o fis Medi ymlaen bydd modd cynnig cymorth i liniaru sgil-ffeithiau ariannol y feirws ar y cylchoedd a orfodwyd i gau am

fisoedd. Mae £90,000 eisoes wedi ei rannu i dros 50 o Gylchoedd Meithrin ers mis Ebrill.

Os hoffech mwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni.



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Tudalen Rob Evans



Pan dach chi'n dechrau meddwl yn ddwfn am fyd natur dach chi'n sylweddoli bod popeth yn ffio efo'i gilydd fel jig-so enfawr. Dim ond rhywun fel Sir David Attenborough sydd â gobaith i osod pob darn yn ei le a dw i'n siŵr nad oes ganddo fo ateb i bob cwestiwn. Meddylwch am adar, yn fras, eu pwrpas nhw yw bwyta, ond mae rhai yn bwyta hadau, rhai yn bwyta pryfed genwair, eraill yn bwyta morgrug, rhai pysgod a rhai eggsotig yn ffafrio neithdar. Pawb at y peth y bo! Ond beth bynnag yw'r rheswm bodoli mae'r Bod Mawr wedi sicrhau bod eu cyrff yn addas at y pwrpas. I'r rhai sydd yn bwyta hadau caled mae O wedi rhoi pig groes iddyn nhw, pig hir i'r rhai sydd yn hoffi neithdar, ac yn y blaen. Ond ym mhob teulu mae rebel, rhywun sydd eisiau creu sŵn fel oedd yr hen grwpiau pync. Pwy ydyn nhw tybed? Wel heb bangar byd adar yw cnoellau'r coed. Mae'n aderyn 'high impact' go iawn. Mae'n mynd allan yn y bore a threulio'r diwrnod cyfan yn taro ei big i mewn i

ryw goeden. Dychmygwch, mae o'n cyrraedd adref ac mae ei wraig yn gofyn "Sut fath o ddiwrnod wyt ti wedi cael, cariad?" A ydi o'n ateb "Paid â gofyn, mae gen i gur pen ofnadwy?" Wel na, dydi o ddim, mae'n dweud "O go dda w'st ti, mae'r diwrnod wedi bod braidd yn hir a'r gwaith yn 'boring' wrth gwrs, neis bod adra!" Y peth yw, ac efallai nad ydych yn gwybod hyn ond, tu ôl i'w big mae math o 'shock absorber' felly does dim rhaid i'w wraig ddod â Paracetemols iddo ar ddiwedd pob dydd, clyfar yntel!

Yn ddiweddar, wrth fynd i'r gegin efo llestri i olchi gwelais i gnoellau'r coed ar y lawnt, y fam a'r cyw. Roedd y fam yn brysor yn dangos i'r cyw sut i chwilio am bryfed genwair. Roedd hyn yn gyfle rhy dda i gollu ac es i i nôl y camera a dechrau tynnu lluniau ohony'n nhw trwy'r ffenest. Doedd y cyw ddim yn cael llawer o lwc ac yn sydyn dyma'r fam yn troi ato a stwffio ei phig i mewn i'w geg, doeddwn i ddim yn disgwyl tynnu llun o'r fath ac mae'n llun i'w werthfawrogi

Nid ydych yn gwybod am faint bydd adar yn aros yn yr un lle, pan dach chi'n gweld rhywbeth fel hyn mae'n rhaid i chi wneud penderfyniad, gadael y ffenest a chwilio am y camera neu aros a mwynhau. Dw i'n falch iawn fy mod i wedi tynnu'r llun yma, fy mod i wedi dewis mynd i nôl y camera. Pan nes i adael y ffenest dim ond dau aderyn oedd yna, digon diddorol ond petaswn i wedi aros a gweld hyn mi fydda i wedi difaru peidio mynd i nôl y camera

DYSGWYR YW DYFODOL YR IAITH

Annwyl Wilia

Heb ymdrechion Cymdeithas yr Iaith yn y 1970au ac ymlaen bydd sefyllfa'r iaith yn fregus iawn erbyn hyn felly ddylen ni i gyd fod yn ddiolchgar i'r Gymdeithas am hynny. Ond, wrth ddarllen am eu dogfen newydd Mwy na Miliwn dw i'n teimlo eu bod nhw'n cyfarth o dan y goeden hollol anghywir. Mae'r syniad o gael 1,000 o 'ofodau uniaith' dros y bum mlynedd nesaf yn un da ond, mewn gwirionedd, a yw hynny'n bosib? Dydw i ddim eisio swnio'n negyddol ond mewn oes pan mae'r gwasanaethau Cymraeg yn ein heglwysi a'n capeli yn prinhaus a'n mudiadau Cymraeg yn dioddef prinder o bobl i'w rhedeg nhw, o ble mae'r bobl yn mynd i ddod i sefydlu'r rhain? Oes fil o bobl frwdfrydig yn eistedd o gwmpas Cymru yn aros yn amyneddgar am yr alwad? Dydw i ddim yn meddwl.

Maen nhw hefyd eisiau'r Llywodraeth wario mwy ar yr iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd mae 0.15% o holl gyllideb y Llywodraeth yn cael ei wario ar yr iaith, mae'r Gymdeithas yn galw am i hyn godi i 1%. Nid yw'r erthygl yn dweud faint yw'r codiad yn ariannol. £27.9 miliwn y flwyddyn maen nhw'n gwario yn bresennol, mae'r Gymdeithas eisiau i hyn godi i £186 miliwn y flwyddyn yn y dyfodol. Meddylwch beth fydd gelynyon yr iaith yn dweud am hynny!

Y ffordd gorau i godi nifer o siaradwyr yw gwneud hynny mewn ffordd naturiol ac wrth ddefnyddio beth sydd yn bodoli yn barod. Y gwir yw bod miloedd o oedolion yn cofrestru i ddysgu Cymraeg pob blwyddyn trwy ein dosbarthiadau nos. Yn anffodus dydyn nhw i gyd ddim yn cyrraedd diwedd y daith, maen nhw'n dysgu Cymraeg ond rywsut mae'r byd Cymraeg mor bell i ffordd ag erioed. Beth am i'r tiwtoriaid dosbarthu copiau o'r papur

Deiseb bwysig ar gyfer achub Coleg Harlech.

Mae Cymru wedi ddioddef o bla y tai haf ers degawdau lawer ac bellach, mae tir ac eiddo yn ein cenedl bach yn cael ei werthu a'i brynu ar gyflymder dychrynlyd fel na welwyd erioed o'r blaen a hynny gan syndicetiau o Loegr yn ogystal ac unigolion, ac os na ellir, hyd yn oed, a llofnodi'r ddeiseb sydd yn y ddolen gyswilt isod i achub Coleg Harlech rhag cael ei ddymchwel i ganiatau i 'rheibwyr' allu adeiladu tai a fflatiau moethus ar gyfer y cyfoethog hynny sydd am ddianc i fyw o brysordeb trefi a dinasoedd lloegr ar y safle, yna, does dim gobaith o achub Cymru rhag ei 'diwedd dyddiau'. Os achubir y coleg, ar y llaw arall, gellir ei ddefnyddio fel coleg i hyfforddi Cymru di-waith mewn pob math o sgiliau bydd eu hangen mewn Cymru wedi Covid-19. Felly, os yn pryderu am y cynnydd yn y pla o dai haf, diweithdra yn Nghymru ynghyd â dyfodol neu, diwedd ein cenedl, llofnodwch y ddeiseb, ac yna pasiwc ymlaen i bawb rydych yn eu adnabod. Mae angen 5000 o lofnodion os yw'r ddeiseb i'w thrafod yn y Senedd, dewch i ni anelu am 50,000 er mwyn mynegi'n glir i ni fod yn ymladd yn ôl o'r diwedd ac achub Coleg Harlech yw'r weithred cyntaf yn y brwydro'n ôl i

bro leol i bob dysgwr pob mis, treulio pum munud i ganolbwytio ar rai o'r pethau Cymreig sydd yn digwydd yn lleol ac wedyn mynd ymlaen efo'r dosbarth. Yn sydyn dach chi wedi dod a'r gymdeithas Gymraeg i mewn i'r dosbarth. Nes ymlaen efallai cael rhywun o'r papur bro i siarad â nhw ac efallai gwahodd rhai i helpu efo'r plygu, allech chi gael dau neu dri gwahanol pob mis er mwyn gwneud yn siŵr bob pawb yn cael tro. A dyna chi, mae dysgwyr yn cael y cyfle i gymysgu efo'r Cymry Cymraeg ac wrth gwrs nid dyna fydd y diwedd. Wrth wneud cysylltiad cynnar rhwng y gymuned a'r dysgwyr allwn ni greu llawer mwy o siaradwyr Cymraeg hyderus. O brofiad dw i'n gwybod pa mor frwdfrydig yw'r dysgwyr ac mae'n biti garw bod gymaint yn mynd ar goll. Os allwn ni gael hyn i ddigwydd yn bob dosbarth nos trwy'r wlad allwn ni wneud gwahaniaeth enfawr a chyrraedd y filiwn yn ein hoes ni. Does dim rhaid i mi ddweud bydd hynny yn fy ngwneud i'n hapus dros ben. A fydd y Colegau Cymraeg yn fodlon addasu ei gwricwlwm tamaid bach i gynnwys yr addasiad yma? Weithiau mae pethau syml yn effeithiol dros ben (ac yn costio dim).

Rob Evans


NOFEL NEWYDD ANDREW GREEN

GOLWG DYCHANOL A DAMNIOL AR FYD ADDYSG UWCH GAN AWDUR O ABERTAW

Mae'r cyn-Lyfrgellydd Cenedlaethol Andrew Green yn awdur ers hanner canrif a mwy, ac yn gyn-enillydd Llyfr y Flwyddyn (am *Cymru mewn 100 Gwrthrych* yn 2019). Mae ei nofel gyntaf, *Rhwng y Silffoedd* (Y Lolfa), yn mentro i fyd cyfnewidiol y brifysgol.

Mae *Rhwng y Silffoedd* yn nofel llawn sylwadau dychanol am fyd addysg uwch. Mae Andrew Green wedi gweithio mewn sawl prifysgol yng Nghymru a Lloegr ac felly mae'r maes yn un mae'n ei adnabod yn dda iawn.

Bu Andrew Green, cyn mynd yn Llyfrgellydd Cenedlaethol Cymru, yn bennaeth y llyfrgell ym Mhrifysgol Abertawe. Meistrrolodd y Gymraeg yma, a chyfrannu erthyglau i Wilia. Ar ôl ymddeol o Aberystwyth, mae e'n byw yn Abertawe ac wedi ymdafu i fywyd y ddinas. Ymysg pethau eraill, cymerodd ran



flaenllaw gyda'r Sefydliad Brenhinol De Cymru a gwneud llawer i'w Gymreigio. Meddai Andrew:

“O 1970 tan yn ddiweddar bues i'n rhan o'r byd addysg uwch mewn rhyw fodd neu'i gilydd – fel myfyriwr, gweithiwr neu lywodraethwr. Ond wedi gadael y byd hwnnw, teimlais fy mod i'n gorffod mynegi fy nheimladau cryf am brifysgolion cyfoes. Penderfynais mai'r ffordd orau o ddweud y cyfan fyddai trwy ysgrifennu nofel ddychanol, a cheisio gwneud i bobl chwerthin yn ogystal â

meddwl.”

Marwolaeth sydyn yr Athro Diocletian Jones, Is-Ganghellor ac unben Prifysgol Aberacheron, yw man cychwyn y stori. Y farn gyffredinol yw bod damwain wedi digwydd, ond mae gan Dr Llŷr Meredydd, darlithydd yn yr Adran Griminoleg, ei amheuo. Gyda help y Llyfrgellydd, Menna Maengwyn, mae'n mynd ar ôl nifer o bobl y byddai rheswm da ganddynt i lofruddio'r Is-Ganghellor. Ond mae'r gwir, yn y pen draw, yn rhyfeddach byth.

Mae'r nofel gampws glyfar a ffraeth yn defnyddio arddulliau gwahanol i ddweud y stori, ac mae erthyglau o bapurau newydd, llythyrau, darn o raglen deledu, cofnodion, dyddiadur a ffrwd Twitter ar wasgar trwy'r naratif.

Disgrifiodd Catrin Beard y nofel fel un: “Doniol, crafog... a phryderus o gredadwy.”

“Dwi'n ceisio gwneud ambell bwynt am sut mae prifysgolion – ac ein cymdeithas yn gyffredinol – wedi newid yn ystod y degawdau diwethaf – er gwaeth, yn aml iawn, gan ddiystyru rhai o'n gwerthoedd anwylaf,” meddai Andrew Green.

“Drwy weithio yn y byd addysg allwch chi ddim llai na chasglu llu o straeon a chymeriadau rhyfeddol. Wedyn, gyda'ch pin yn eich llaw, y cwbl sydd ei eisiau yw pysgota yn amyneddgar – taflu eich lein i'r afon o atgofion a thynnu pysgod allan o'r dŵr. Mae'r ysbrydoliaeth yn gymysgfa o brofiadau personol, dychymyg a darllen am helyntion

Ffurflen Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe

Rhif E-bost: 554082



Hoffwn ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Cymdeithas Ty Tawe, gan gyfrannu at ddyfodol y Ganolfan a'i gwaith dros y Gymraeg.

Teitl ac Enw/au (Prif lythrennau os gwelwch yn dda):

Cyfeiriad:

Cyfeiriad e-bost: Rhif ffôn:

Hoffwn dderbyn newyddion am weithgareddau Cymdeithas Ty Tawe
Hoffwn dderbyn e-gylchlythyr wythnosol Menter Iaith Abertawe, partner Ty Tawe

Gellid dad-datrysgrifo o'Y uchod ar unrhyw adeg trwy gyffwrdd â'r Cymdeithas neu'r Fenter.

Mathau o Gefnogaeth (Yn ôl eich dewis – rydym yn ddiolchgar am bob cyfraniad)

1 £24 y flwyddyn £2 y mis	2 £60 y fl. £5 y mis	3 £120 y fl. £10 y mis	4 £240 y fl. £10 y mis	5 Teulu: Un o'r rhain + 50%
---------------------------------	----------------------------	------------------------------	------------------------------	-----------------------------------

Os ydych yn talu treth incwm a/neu dreth enifon digonol, mae'n bosib trin eich tali aelodaeth fel taliad Cymorth Rhodd (gwelwch drosodd).

Talu gyda siec

Ticiwch y blwch priodol ar y dde, ac anfonwch y ffurflen hon (a sic am y swm a ddewiswch) o'r Rhan Cymorth Rhodd (drosodd) at:

Clwb Cefnogwyr Ty Tawe,
Rhian Jones / Catrin Rowlands,
Llecyn Llawn,
4 Stryd Lewis,
St Thomas
Abertawe SA1 8BP.

1	£24	<input type="checkbox"/>
2	£60	<input type="checkbox"/>
3	£120	<input type="checkbox"/>
4	£240	<input type="checkbox"/>
5	Un o'r rhain + 50%	<input type="checkbox"/>

Llofnod:

CLWB CEFNOGWYR TAW

Mae Ty Tawe'n cychwyn cynllun cefnogwyr newydd. Bydd y cynllun hwn yn diogelu'r Ganolfan am y genhedlaeth nesaf, ac yn fodd o gryfhau bywyd Cymraeg cymunedol Abertawe.

Mae gan Ty Tawe nifer helaeth o Aelodau Oes, a gyfrannodd yn allweddol at sefydlu'r Ganolfan.

Ar hyd 33 o flynyddoedd ers ei sefydlu, llwyddodd Ty Tawe i gynnal y ganolfan trwy elw o'r siop, rhentu ystafelloedd, rhent gan y Fenter Iaith a rhai ffynonellau eraill.

Eleni mae Ty Tawe'n wynebu sefyllfa arbennig yn sgil effaith Covid-19 ar incwm. Bydd nifer y dosbarthiadau Cymraeg i Ddysgwyr yn llawer llai nag yn y gorffennol.

Ar hyd y 33 blynedd, cafodd cymdeithasau Cymraeg yr ardal ddefnyddio Ty Tawe am ddim neu

am gost fechan iawn.

Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, mae'n glir y bydd angen incwm aelodaeth o ryw £10,000 o flwyddyn.

Mae croeso i aelodau presennol gefnogi. Caiff pob cefnogwr aelodaeth o Gymdeithas Ty Tawe a disgownt yn y siop o 10%.

Byddai Ty Tawe'n dymuno i gynifer ag sy'n bosibl i gefnogi trwy archeb banc— mae ffurflen ar gael gan Rhian Jones a Catrin Rowlands, y mae eu cyfeiriad ar y chwth.

Os yw rhywun am anfon siec, mae croeso ichi wneud hynny, a'i danfon at Rhian a Catrin.

Mae dewis o daliadau cefnogi, fel y gall pawb gyfrannu yn ôl ei fodd.

Diolch am bob cefnogaeth!